

CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Bethan Roberts

Rhif Ffôn: 01248 602131

Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol (Cyfarfod Rhithiol) o'r Cyngor a gynhaliwyd ar

Nos Iau 18 Mehefin 2020 am 18.30

Oherwydd Covid-19 cynhaliwyd y cyfarfod drwy ddefnyddio Zoom

PRESENNOL:

Y Cynghorydd Dafydd Owen

Y Cynghorydd Dafydd Roberts

Y Cynghorydd Mair Leverett

Y Cynghorydd Richard Fraser-Williams

Y Cynghorydd Mair Owen Pierce

Y Cynghorydd Jacob Milner

Y Cynghorydd Huw P Jones

Y Cynghorydd Mary Hayes

Y Cynghorydd Gabrielle Wyn

Y Cynghorydd Iwan Hywel

Y Cynghorydd Lowri Jones

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod rhithiol gan y Cadeirydd, Cyng. Iwan Hywel.

Ymddiheuriadau gan y Cyng. Gwen Griffith.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am fynychu'r cyfarfod rhithiol hwn ac yn falch iawn fod pawb yn iach ac yn cadw'n ddiogel yn ystod yr cyfnod anodd hwn.

2. Cofnodion

Penderfynwyd: Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2020.

3. Materion yn codi o'r cofnodion

- 3.1** Lloches bws yn mynedfa pentref Llandygai – Penderfynwyd efallai y byddai cysgodfan bws metel gwyrdd yn addas ar gyfer yr safle hwn – y Cyng. Mair Leverett am ymweld/cysylltu gyda'r cymdogion cyfagos i ymghynghori.
- 3.2** Problemau gyda rhai o'r goleuadau stryd o fewn yr ardal. Y Clerc a Cyng. Dafydd Owen wedi cysylltu eisoes gyda Cyngor Gwynedd, ond dim ymateb hyd yn hyn. Cytunwyd y byddai Cyng. Iwan Hywel a Cyng. Dafydd Owen yn ymweld a'r safleoedd diwedd yr haf pryd fydd nosweithiau yn tywyllu.
- 3.3** Problemau gôr-yrru yn Mynydd Llandygai ac wrth Ysgol Bodfeurig – y Cyng. Richard Fraser-Williams a'r Clerc wedi cyfarfod gyda Iwan ap Trefor ar y safle. Penderfynwyd mynd ymlaen gyda cynlluniau gwreiddiol yr adran priffyrdd, ond nid yw'r Cyngor yn fodlon ar hyn. Cytunwyd y byddai'r adran priffyrdd yn darparu dyfynbris ar gyfer clustogau cyflymder, ac efallai y bydd yn bosib i'r Cyngor cyfrannu at yr gost. Y Clerc i holi Iwan ap Trefor am y dyfynbris. Y Clerc

hefyd i cysylltu gyda Pennaeth dros dro Ysgol Bodfeurig a gofyn iddynt amlygu eu pryderon hefyd.

- 3.4 Ciciwr Calon Tregarth - Cyng. Dafydd Owen a Cyng. Huw Jones i edrych am safleoedd addas ar gyfer y ddau arwydd arall.
- 3.5 Ciciwr Calon Neuadd Talgai –Y Clerc yn disgwyl ymateb gan Tomos Hughes, Elusen Achub Calon y Dyffryn ynglyn a pryd fydd y gwaith yn gael ei gwblhau.
- 3.6 Arwyddion Ciciwr Calon Mynydd Llandygai – Cyng. Richard Fraser-Williams wedi derbyn dyfynbrisiau ar gyfer arwyddion tebyg i rhai yn Nhregarth. Y Cynghorydd i danfon y prisiau ymlaen i'r Clerc.
- 3.7 Is-bwyllgor Llwybrau a Ffosydd – Cyng. Huw Jones a Dafydd Owen i ddanfon cofrestr i'r Cyngor yn dilyn eu cyfarfod ar ddiwedd Ionawr. Y Clerc wedi derbyn copi o yswiriant y contractwr ac yr is-contractwr sydd yn ymgymryd y gwaith.
- 3.9 Llecyn Tir, Bont Twr – Cyng. Richard Fraser-Williams a'r Clerc wedi cyfarfod i drafod yr ffurflen cofrestra tir. Disgwyl ymateb gan Jo Davies, Rheolwr Ystadau Breedon Group cyn mynd ymlaen i ddanfon y ffurflen, y rheolwr ar cyfnod seibiant oherwydd cofid-19 (furlough).

4. Gohebiaeth

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Mehefin 2020'

Cyflwynwyd: Partneriaeth Ogwen – Hysbysebu'r gronfa Crowdfunder ar gyfer y banc bwyd – Penderfynwyd rhoi rhodd o £300 at yr achos. Y Cynghorwyr i gylchredeg yr wybodaeth.

Cyflwynwyd: Siop Ogwen – Profiadau Covid-19 – yn anffodus roedd yr ohebiaeth yma rhy hwyr, roedd y gwaith wedi gael ei gwblhau yn barod.

Cyflwynwyd: Siop Ogwen – Murlun Bethesda – pawb i danfon syniadau ymlaen at Fflur siop@ogwen.org. Nodwyd bod y Siop nawr yn cymeryd archebion llyfrau.

Cyflwynwyd: Un Llais Cymru – Mynychu Cyfarfod o Bell – pawb wedi darllen y gwybodaeth.

Cyflwynwyd: Cais am rhodd – Uned Cancr a Haemotoleg Alaw – cytunwyd rhoid rhodd o £100 tuag at yr achos.

5. Gwaith y mis

5.1 Gyli ym Mhentref Llandygai angen ei lanhau – Cyng. Dafydd Owen i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd.

5.2 Lon y Wern – y gwaith wedi'i gwblhau. Y Clerc i ddanfon ebost i ddiolch.

5.3 Llwybrau – gwaith cynnal llwybrau i ddechrau cyn gynted a phosib. Cyng. Dafydd Owen wedi derbyn canllawiau i'w dilyn gan Cyngor Gwynedd, a wedi trafod gyda'r contractwr.

5.4 Mynediad i Lon Las Ogwen ger Garej Pandy – nifer fawr o gwynion wedi'i dderbyn yn yr wythnosau diwethaf. Nid yw'r palmant newydd ger y fynediad yn weladwy iawn i gyrrwyr ceir, ac mae'r bolard yno wedi torri. Y Clerc eisoes wedi danfon ebost ynglyn a'r mater. Y Clerc i nodi pryderon y Cyngor ar unwaith eto, nid oes digon o arwyddion ar y safle.

5.5 Nodwyd fod tir ger eiddo Y Gornel ar allt Cerrigllwydion wedi gael ei ffensio tuag at y palmant – Cyng. Dafydd Owen a'r Clerc i holi'r Cyngor pwy sydd yn berchen ar y llecyn tir.

5.6 Adroddwyd fod yno llawer o 'knotweed' ger y Parc yn Mynydd Llandegai, yr aelodau yn amau fod y tir yma yn berchen i Stad Penrhyn. Cyng. Jacob Milner i wneud ymholiadau ar ran y Cyngor.

- 5.7** Nodwyd fod y nifer o ysbwriel a tipio anghyfreithlon wedi cynyddu ers i'r rheolau clo fawr lleddfu. Ardal ffordd Dinas yn Nhregarth yn ddrwg ofnadwy, Cyng. Dafydd Owen i holi os oes bosib cael arwyddion yma. Cyng. Jacob Milner i holi Stad Penrhyn ynglyn a'r tipio anghyfreithlon ger yr afon. Y Clerc i rhannu'r deiseb 'McDonalds' i'r aelodau.
- 5.8** Adroddwyd fod dim arwyddion ar hyd Llwybr Rhif 3 – Y Clerc a Cyng. Dafydd Owen wedi cysylltu gyda'r Swyddog Llwybrau. Y Clerc i gael diweddariad.

6. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr

Neuaddau – Trafodwyd fod bosib i'r neuaddau dderbyn cymorth ariannol/grantiau yn ystod argyfwng covid-19. Y cynghorwyr i rannu'r gwybodaeth gyda'r unigolion priodol.

Ysgol Tregarth – Adroddwyd bod Ysgol Tregarth wedi derbyn adroddiad hynod o ganmoliaethus yn ddiweddar gan fod tîm arolygu Estyn wedi dod i'r casgliad fod yr ysgol yn rhagorol ym mhob un o'r pum maes arolygu. Y Clerc i ddanfôn llythyr i longyfarch yr ysgol ac i ddiolch am eu holl waith caled.

Partneriaeth Ogwen – diweddariad ar holl waith y Bartneriaeth.

7. Cyfrifon 2019-20

Penderfynwyd: derbyn yr adroddiad ariannol.

8. Archwiliad Mewnol Cyfrifon 2019-20

Penderfynwyd: Derbyn yr adroddiad ac i ymrwymo i roi sylw i'r risgiau nodwyd a chymeryd y camau priodol i'w liniaru.

9. Ffurflen Flynyddol 2019-20

Penderfynwyd bod y Cyngor yn hapus i gymeradwyo'r ffurflen. Y Cadeirydd a'r Clerc i'w arwyddo.

10. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu

10.1 Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar ddiwedd mis Mai. Derbyniwyd yr adroddiad.

10.2 Rheoli Risg: y Clerc i gylchredeg y cofrestr risg yn fisol a'i hadolygu yn ystod y cyfarfod.

11. Taliadau

Awdurdodwyd y canlynol:

Swyddfa Archwilio Cymru £400.40

12. Cyfarfod Blynyddol

Oherwydd y pandemig cofid-19, penderfynwyd gohirio'r cyfarfod blynyddol tan y flwyddyn nesaf, a bydd y Cadeirydd ac Is-Gadeirydd yn aros yn y sedd hon am flwyddyn arall.

13. Penderfyniadau Cynllunio
C15/0966/16/MG

Tir ger Pentwmpath, Llandygai
Cais materion a gadwyd yn ôl ar gyfer
codi 15 tŷ gan gynnwys 5 tŷ
fforddiadwy

Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd

C18/0571/16/HY

Llys y Gwynt, Bangor
Arwyddion amrywiol wedi ei goleuo
ac heb eu goleuo

Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd

NP3/16/28

Ogwen Falls Snack Bar, Nant Ffrancon,
Bethesda
Codi monopolyn 15m o uchder wedi'i
gladio â choed

Penderfyniad: Caniatawyd gydag
amodau

C18/0767/25/LL

Coed Wern, Glasinfryn
Safle arfaethedig ar gyfer 40 llety,
adeilad derbynfa, a chreu 2
nodweddion dŵr. Ynghyd a ffurfio
ffyrdd mynediad cysylltiedig a
meysydd parcio, tirweddu a gwaith
cysylltiedig eraill.

Penderfyniad: Holl ymgynghoriadau
drosodd

C19/0918/16/LL

Chwarel Goch Isaf, Sling, Tregarth
Addasu adeiladau allanol ar gyfer 2
uned wyliau ynghyd a gosod tanc
septig newydd a pharcio

Penderfyniad: Cais wedi'i gofrestru

C19/0898/16/LL

Bryniau Eithinog, Sling
Trosi adeilad allanol yn llety gwyliau a
gosod cyfarpar pecyn trin carthion

Penderfyniad: Caniatawyd gydag
amodau

C19/1134/16/LL

Tyddyn y Felin, Felin Hen
Dymchwel y modurdy presennol a
chodi anecs yn ei le

Penderfyniad: Caniatawyd gydag
amodau

C20/0015/16/LL

Hughes Glass & Glazing, Ystad
Ddiwydiannol Llandygai
Dymchwel yr adeilad diwydiannol
presennol a chodi 5 uned diwydiannol
ysgafn newydd ynghyd ac ail leoli'r
fynedfa a darparu llecynnau parcio
Penderfyniad: Caniatwyd gydag
amodau

C20/0028/16/DT

2 Llety Bwgan, Tregarth
Dymchwel yr estyniadau cefn a chodi
estyniad deulawr ynghyd a chodi
uchder presennol to gwastad y
modurdy
Penderfyniad: Caniatwyd gydag
amodau

C19/1170/13/LL

Tir yn Fferm Tanysgrafell, Bethesda
Trosi ac estynnu adeiladau
amaethyddol segur i uned wyliau
hunan gynhaliol ynghyd a chreu thrac
mynediad a ardal parcio cerbydau.
Penderfyniad: Tynnwyd yn ol

C20/0101/16/LL

Lock Stock Storage Zone 2, Ystad
Ddiwydiannol Llandygai
Gosod cynhwysyddion uwchben y rhai
presennol ynghyd a grisiau a gantris
Penderfyniad: Caniatwyd gydag
amodau

C20/0082/16/LL

29 Tan y Bwlch, Mynydd Llandygai
Addasu adeilad allanol i uned wyliau
hunan gynhaliol
Penderfyniad: Gwrthodwyd

C20/0059/16/LL

Zip World, Chwarel Penrhyn, Bethesda
Gosod camerau cylch cyfyng,
arwyddion rhybudd a ffensys
Penderfyniad: Caniatwyd gydag
amodau

C20/0057/16/LL

Zip World, Chwarel Penrhyn, Bethesda
Lleoli 4 cynhwysydd dros dro i'w
defnyddio ynghlwm a'r trac cartio
newydd
Penderfyniad: Caniatwyd gydag
amodau

Ceisiadau Cynllunio (Mawrth i Mai – penderfyniadau drwy ebost)

C20/0211/16/DT Bryn Melyn, Llandygai,
Dymchwel y modurdy presennol a chodi estyniad deulawr yn ei le
Penderfyniad y Cyngor Cymuned: Dim gwrthwynebiad
Penderfyniad Adran Cynllunio: Caniatwyd gydag amodau

C20/0155/16/LL Rhos Uchaf, Llandygai,
Estyniad deulawr a chodi modurdy newydd
Penderfyniad y Cyngor Cymuned: Dim gwrthwynebiad
Penderfyniad Adran Cynllunio: Caniatwyd gydag amodau

C20/0267/16/DT Bryn Llys, Pen Y Groes, Tregarth,
Estyniad cefn unllawr.
Penderfyniad y Cyngor Cymuned: Dim gwrthwynebiad - heblaw
bod yr estyniad arfaethedig yn sylweddol fwy na'r conservatory
presennol, ac y gallai ei faint fod yn ormodol ar gyfer y cymdogion.
Penderfyniad Adran Cynllunio: Ar y gweill

C20/0330/16/LL 3, Sling Cottages, Sling,
Newid defnydd sied ardd ar gyfer defnydd busnes (cynhyrchu,
storio a phacio medd)
Penderfyniad y Cyngor Cymuned: Cefnogi
Penderfyniad Adran Cynllunio: Ar y gweill

C20/0309/16/DT 28 Tan Y Bwlch, Mynydd Llandygai,
Estyniadau a newidiadau (cynlluniau diwygiedig i'r hyn a
ganiatwyd yng nghais C19/0786/16/LL)
Penderfyniad y Cyngor Cymuned: Dim gwrthwynebiad
Penderfyniad Adran Cynllunio: Caniatwyd gydag amodau

14. Ceisiadau Cynllunio

Dim.

15. Unrhyw fater brys arall

Dim.